# Datblygu a rheoli'r gwaith o weithredu Cynllun Iechyd Pysgod y safle

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â datblygu a rheoli'r gwaith o weithredu Cynllun Iechyd Pysgod (FHP) safle, gan ddisgrifio'r rhaglenni â'r gweithdrefnau sydd yn hyrwyddo cynnal iechyd pysgod. Mae'n gofyn bod gwaith yn cael ei gwblhau yn unol â gweithdrefnau gweithredu safonol y safle.

Mae'r safon hon yn gofyn eich bod yn casglu gwybodaeth i gynorthwyo diagnosis pysgod unigol a grwpiau o bysgod.

Mae'r safon hon ar gyfer y rheiny sydd yn gyfrifol am ddatblygu a rheoli'r gwaith o weithredu Cynllun Iechyd Pysgod (FHP) safle.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. rhoi gweithdrefnau ar waith i sicrhau amgylchedd gwaith iach, diogel a chadarn
2. datblygu cynllun Iechyd Pysgod (FHP) safle i fonitro a chynnal iechyd pysgod
3. cynllunio'r adnoddau sydd yn ofynnol i gefnogi'r gwaith o gynnal Cynllun Iechyd Pysgod (FHP) y safle
4. datblygu rhaglenni i gynnal iechyd a lles pysgod trwy gynnal gweithdrefnau hylendid a bioddiogelwch, amodau amgylcheddol a dwysedd stocio mewn unedau cadw
5. datblygu rhaglenni iechyd proffylactig i gynnal iechyd pysgod
6. cyfathrebu anghenion Cynllun Iechyd Pysgod (FHP) y safle i bawb sydd yn gysylltiedig â'i weithredu
7. sicrhau bod gweithgareddau monitro iechyd yn adnabod salwch a symptomau annormaledd mewn pysgod, ac yn casglu gwybodaeth i gynorthwyo diagnosis o'r rhain
8. gofyn am gyngor milfeddygol, yn seiliedig ar ddisgrifiad cywir o symptomau
9. cymryd camau ar unwaith i leihau effaith bosibl argyfyngau iechyd
10. rheoli'r gwaith o weithredu rhaglenni i fonitro a chynnal iechyd pysgod
11. gwerthuso effeithiolrwydd Cynllun Iechyd Pysgod (FHP) y safle
12. rheoli cofnodion iechyd yn unol â ***'r*** gofynion cyfreithiol a Chynllun Iechyd Pysgod (FHP) y safle

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1.
y gofynion cyfreithiol a sefydliadol perthnasol ar gyfer iechyd, diogelwch a diogeledd sydd yn gysylltiedig â chynnal rhaglenni iechyd pysgod
2.
y gofynion cyfreithiol sydd yn rheoli Cynlluniau Iechyd Pysgod (FHP) safleoedd, eu cynnwys a'u swyddogaeth
3. sut i sefydlu gweithgareddau monitro iechyd i nodi ymddygiad iach pysgod â'r arwyddion sydd yn dangos salwch neu annormaledd
4. clefydau cyffredin ac achosion salwch yn y rhywogaethau o bysgod sydd yn cael eu ffermio
5. pwysigrwydd cael cyngor pan fydd amheuaeth o broblemau iechyd
6. triniaethau iechyd a'u cymhwyso wrth gynnal iechyd pysgod
7. sut gall technegau hwsmonaeth da helpu i gynnal iechyd pysgod
8. argyfyngau iechyd a sut mae'n bosibl cyfyngu eu heffaith ar stoc fferm
9. pam y mae'n hanfodol cymryd camau ar unwaith os bydd amheuaeth o **glefydau hysbysadwy**
10. sut i hysbysu ynghylch clefydau hysbysadwy
11. pwysigrwydd hylendid a bioddiogelwch wrth gynnal Cynllun Iechyd Pysgod (FHP) y safle
12. sut i werthuso effeithiolrwydd rhaglenni iechyd
13. y gofynion cyfreithiol a gweithdrefnau safle ar gyfer rheoli cofnodion iechyd pysgod

## Geirfa

**Cynllun Iechyd Pysgod (FHP)** – cyfeirir ato hefyd fel Cynllun Iechyd Milfeddygol (VHP) a Chynllun Iechyd a Lles Milfeddygol (VHWP)

**clefydau hysbysadwy** – clefydau pysgod y mae angen hysbysu adran berthnasol y llywodraeth yn eu cylch

**proffylactig** – triniaeth ataliol e.e. brechu

**adnoddau** – pobl, cyfarpar, storio, cludiant

LANAqu33

Datblygu a rheoli'r gwaith o weithredu Cynllun Iechyd Pysgod y safle

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 29 Ebr 2015 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 29 Ebr 2020 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANAqu33 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Ffermio Pysgod |
| **Cyfres/Set** | Dyframaethu, Gofal a Lles Anifeiliaid |
| **Geiriau Allweddol** | Pysgod; cynllun iechyd |